

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Deva Dogware, Gwynfe; Ffatri Alan Paine, Rhydaman
(Dechreuodd yn Deva Dogware yn 1965 neu 1966)

Cyfwelai: VSW017 Nan Morse

Dyddiad: 15.1.14

Cyfwelydd: Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary at the end of the Welsh text

Ganed Nan yn Faerdre Fach, ger Castell Carreg Cennen ar 12 Ionawr, 1950. Roedd ei mam a'i thad yn ffermio. (Ni fuodd ei mam yn mynd allan i weithio erioed.) Pan roedd yn ddwy flwydd oed symudodd i Nantfforchog yn Gwynfe, ac aeth i Ysgol Gwynfe pan oedd tua pedair mlwydd oed. Aeth i Llandoverly County High wedi hynny. (Ysgol Pantycelyn nawr.) Roedd yn bymtheng mlwydd oed yn gadael yr ysgol, ac yn falch pan ddaeth yr amser i adael oherwydd roedd yn casau'r ysgol. Byddai'n treulio oriau yn mynd i'r ysgol o Gwynfe i Lanymddyfri bob dydd – yn gyntaf byddai'n mynd ar y bws mini o Nantfforchog i'r Three Horse Shoes ac aros yno a chael bws 'doubledecker' Thomas Brothers i Lanymddyfri. Ar ôl hynny roedd yn cymryd bws arall i fynd i lan trwy Myddfai yn y bore. Yn amal iawn roedd hi'n dywyll pan ddeuai adref ar ôl ysgol yn y gaeaf. Byddai wedi hoffi mynd i nyrsio ar ôl gadael yr ysgol, ond nid oedd hwn yn opsiwn oherwydd ei bod yn byw yng nghefn gwlad, ac nid oedd trafndiaethar gael.

Cyn gadael yr ysgol roedd ganddi jobyn bach mewn siop leol yn gwerthu losin i Dai Bont, ar bwys y Three Horse Shoes. Roedd siop ganddi yn gwerthu bwyd ac ati. Roedd e'n 'moonlight grocer' yn mynd allan i ddelifro i ffermydd tua naw o'r gloch y nos, ac ar ddydd Sadwrn roedd hi'n cael gwerthi losin yn y siop. Roedd yn hoff o waith siop ac aeth ymlaen i fod yn fwtsher! Dyw hi ddim yn cofio cael tâl, ac yn credu efallai mai losin oedd hi'n cael yn lle hynny. Tua un deg pedwar mlwydd oed oedd hi ar y pryd, ac roedd hi'n cerdded dwy neu dair milltir i gyrraedd y siop.

Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio'n y Swyddfa Bost yn Llanwrda, yn gofalu am bedwar o blant bach. Buodd hi yno o'r Pasg tan yr haf. Roedd yn hoffi'r gwaith ond erbyn hyn yn credu nad oedd hi'n ddigon aeddfed i ofalu am y plant achos nid oedd hi'n fwy na phlentyn ei hun. Teimlai nad oedd hi'n 'cut out' i neud e.

Yn yr haf ar ôl iddi orffen yn yr ysgol fe ddechreuodd yn y ffatri. Ar y dechrau teithiai yno gyda'i mam neu'i thad, yna byddai'n cael lifft gyda bos y ffatri, Bert. Roedd ei mam neu'i

thad yn mynd â hi tua milltir, yna roedd e'n ei phigo hi i fyny, ac ar y ffordd nôl byddai'n cael lifft ganddo nôl i'r un lle, a cherdded adref.

Nid yw'n cofio sut y cafodd hi'r swydd yn y ffatri, ond roedd yn falch i ddod nôl o Lanwrda achos roedd yn gallu byw gartref. Deva Dogware, Pontarlleche oedd enw'r ffatri.

Yn y ffatri ei gwaith oedd torri cadwyni, weldo, gwneud tipyn o bopeth. Weithiau byddai'n gwneud belts allan o gadwyni, a bydden nhw'n cael belts eu hunain wedi'u gwneud allan o 'tshains'.

Tenynau cŵn allan o gadwyni, oedd yn cael eu gwneud yno, gan gynnwys tenynau ar gyfer cŵn y deillion. Roedd un rhan o'r ffatri yn gwneud y lledr a'r rhan arall yn gwneud y cadwyni. Dechreuodd Nan weithio yno yn 1965 neu 1966. Roedd yn mwynhau gweithio yn y ffatri ac yn nabod pawb oedd yn gweithio yno. Dim ond tua deg person weithiau yno, yn fechgyn ac yn ferched. Dau frawd o Loegr oedd perchenogion y ffatri. Daethan i Gymru a dechrau'r gwaith, a gweithiai eu gwagedd yn y swyddfa. Lleolwyd y ffatri rhwng Gwynfe a Llanddeusant, ar safle hen felin. Thomas Brothers, cwmni bysus oedd yno cyn hynny, a wedyn prynodd y ddau frawd y felin. Roedd rhieni Nan yn falch iawn ei bod hi wedi cael swydd. Roedd y ddau ohonynt wedi bod yn ffermio ar hyd eu hoes, ac nid oeddynt wedi arfer cael tâl.

Nid yw Nan yn cofio ei diwrnod cyntaf ond mae'n cofio eu tâl cyntaf, sef 'two pound four and nine a week' a chredai ar y pryd bod hyn yn lot o arian. Roedd yn gallu cynilo arian ar y tâl hwn. (Nid oedd yn gorfod talu arian petrol.) Nid oedd yn gorfod rhoi rhan o'i harian i'w mam a'i thad, ond ar ôl mynd adref byddai'n gwneud jobs o gwmpas y fferm.

Roedd yn un o bump o blant, yr ail yn y teulu. (Un chwaer yn hŷn, dau frawd a chwaer yn ifancach.) Roedd ei chwaer hena'n gweithio adref ar y fferm ond pan welodd bod Nan yn ennill arian da aeth hi i weithio yn yr un lle â Nan. Digwyddodd hyn tua blwyddyn ar ôl i Nan ddechrau'n y ffatri.

Er ei bod yn ifanc iawn yn dechrau'n y gwaith, mae'n cofio mynd i ddawns yn Llandeilo, ac aeth hi a'i chwaer a deg swllt mewn arian gyda nhw, ac roedd digon gannddynt i fynd i mewn i'r ddawns, a mynd i'r ffair hefyd.

Roedd pawb oedd yn gweithio'n Deva Dogs yn dod o'r ardal, a tua'r un oedran. Nid oedd angen unrhyw gymwysterau i weithio yno, 'dim ond bod chi'n fodlon gweithio'. Nid oedd prawf o unrhyw fath cyn dechrau, dim ond mynd yn syth amdani.

00.09.54: Dywedodd,

'O'n nhw'n dangos i chi beth i neud, o'ch chi'n pigo fe lan mor rwydd, achos bod chi mor ifanc o'ch chi jest yn gallu neud e'.

Bert oedd y bos a'r perchennog, ac roedd e'n gweithio gyda'r gweithwyr. Roeddynt i gyd mewn un ystafell fawr ac roedd e'n y gornel yn weldo. Nid oedd yn strict, ac nid yw Nan yn cofio iddo roi stwr iddynt erioed.

Dywedodd,

'O'dd e jest fel un o' ni. O'n i'n meddwl bod e'n *ancient*.'

Roedd lot o sŵn tapo yn y ffatri, sŵn y morthwyl, a'r tsains yn y 'vices', sŵn y asetalîn, yr ocsigen a'r weldo. Roedd pawb yn canu, a phawb yn hapus. Caneuon Cymraeg a ganent rhan fwya'r amser.

Roedd yn gweithio o wyth y gloch y bore tan bump o'r gloch, pum diwrnod yr wythnos (er, weithiau, byddai'n gweithio fwy os oedd angen gorffen y gwaith ar gyfer archeb.)

Roedd brêc ar gyfer te yn y bore tua deg o'r gloch y bore. Mae'n disgrifio sut y byddai'n mynd lawr llawr yn ystod y brêc. Roedd tŷ bach yno, sinc a Geezer. Dyna lle roedden nhw'n llenwi'r cwpanau a'u golchi nhw - yn y sinc yn y tŷ bach.

00.12.30: Dywedodd,
'O'n i'n meddwl bod e mor up-market, achos o'n i newydd gael dŵr i'r tŷ gatre'.

Byddai Nan a'r merched yn eistedd ar ben y cadwyni i yfed y dishgled, gydag olew drostynt i gyd.

Nid oedd yn gwishgo iwniform i fynd i'r gwaith, ond rhywbeth hen, a rhywbeth tywyll. Roedd sbarcs yn hedfan allan o'r weldo a byddai'r dillad yn mynd yn "rhacs". Gwisgai gogls i amddiffyn ei llygaid.

Yn ystod y diwrnod gwaith byddai'r merched yn cael ras i gael gweld pwy fyddai'r cyntaf i wneud 50 o 'tsains'.

00.13.34: Dywedodd,
'O'n i'n neud e'n sbort. O'dd yr amser yn mynd, yn hedfan'.

Roedd hi'n oer yn y ffatri ac roedd gwresogydd mawr yno yn chwythu awyr poeth allan. Roedd brêc amser cinio ond nid yw Nan yn cofio bod na brêc yn y prynhawn. Nid oedd radio yno er mwyn diddanu'r merched ond roedden nhw'n gwneud eu sbort eu hunain. Roedd Nan yn mwynhau'r gwaith. Nid oedd y gwaith yn undonog achos roedden nhw'n gwneud gwaith gwahanol o fewn o broses, er enghraifft 'stretsho tsains'. Roedden nhw'n gwneud tipyn o bopeth yno.

Yn ôl Nan roedd pawb a fu'n gweithio yn Deva Dogs wedi cael sbort.

00.15.20: Dywedodd,
'O'dd e ddim se chi'n meddwl am ffatri yn y dre ne rywbeth fel 'na'. Nid yw Nan yn siwr beth fyddai wedi gwneud pe na bai'r ffatri wedi bodoli yng Ngwynfe. Nid oedd llawer o gyfleoedd yn bodoli yng nghefen gwlad.

00.15.46: Dywedodd,
'Odd dim o'r cyfle 'da ni i fynd i rywle, os nagon ni'n mynd o gatre'.

Byddai hi byth wedi ystyried gadael ei chynefin i fynd i chwilio am waith.

00.15.57: Dywedodd,
'O'n ni'n ofan. Ni'n tamed bach o gachgwms! Chi'n gwbod fel ych chi'n y wlad, smo chi mor ffit â bobol y dre.'

Roedd y gwaith wedi aros yr un peth yn ystod y cyfnod roedd hi yno, ond adeg sioe Crufts byddai rhai o'r gweithwyr yn mynd i fyny yno yn sgil eu gwaith. Ni aeth Nan yno erioed. Nid yw'n cofio cael cynnig. Nid oedd yn gwybod beth oedd arwyddocâd "Crufts" beth bynnag.

Nid yw Nan yn ystyried bod y gwaith yn gofyn am sgiliau arbennig, er ei bod yn gwneud pethau fel weldo. Roedd pawb yn gwneud popeth.

Menywod sengl oedd y mwyafrif a weithiai yn y ffatri er roedd yna fenywod priod hefyd. Aeth y cyflog i fyny i dair punt, ond nid yw Nan yn cofio'r amgylchiadau. Byddai'n cael ei thalu bob wythnos – byddai'n cael amlen fach frown gyda'i henw arni. Roedd yn teimlo wedi'i chyffroi pan gafodd y pecyn pai cyntaf. Roedd yn lot o arian ar y pryd. Mae Nan yn credu bod y dynion yn cael eu talu'n fwy oherwydd eu bod yn defnyddio'r peiriannau. Nid yw Nan yn cofio colli gwaith, roedd hi wastod yno.

Roedd y merched yn gwneud ambell felt iddi'u hunain – 'triple links neu double links'. Ond nid oedd y bosys yn gwybod am y percs yma. Hefyd byddent yn gwneud ambell 'gaff i ddal samwn i rai o'r bois'.

Nid yw Nan yn cofio am unrhyw broblemau yn codi yn sgil y gwaith. Roedd Bert y bos yn gweithio ochr yn ochr â nhw. Os oedd rhywbeth yn bod roedd yn datrys y broblem. Ambell waith byddai problem yn codi os na fyddai'n gallu cyrraedd y gwaith, (er enghraifft achos yr eira) ac wedyn byddai Bert yn dod heibio. Rhan amla roedd hi'n cerdded i'w gyfarfod er mwyn cael lifft.

Nid oedd cantŷn neu unrhyw le penodol i fwyta bwyd neu gael brêc. Roedd yr adeilad yn anferth. Roedd tua pedair ystafell lawr llawr. Roedd y peiriannau ble roeddynt yn weldo'r lincs. Roedd y bos wedi dyfeisio'r peiriannau i gyd eu hun. Roedd peiriant yno yn weldo pob linc. Roedd y cadwyni yn dod lan lofft a byddai Nan yn weldo'r rings i fynd pob ochor i'r tennyn.

Nid oedd nenfwd yn yr adeilad lan lofft, dim ond llechi ar y to. Cragen o adeilad ydoedd, neu sied.

00.23.35: Dywedodd,

'Roedd e'n wael rili, yn meddwl nôl... Ar y pryd oedd dim byd yn rong arno fe... O'dd e'n posh ar y pryd. Pan o'n ni'n gwitho 'na o'dd e fel rhyw *haven* i ni gyd i ga'l cwrdd. O'n i'n cael sbri.'

Roedd hi'n oer yno – gwisgai hi yr un math o ddillad haf a gaeaf. Roedd hi'n eithaf tywyll yno, gydag ambell 'strip light', 'jest digon i chi weld'.

Bert a Les Thomas oedd biau'r ffatri. Daeth un ferch i lawr o Lundain i weithio gyda nhw yn y swyddfa. Yvonne Dredge oedd ei henw, efallai. A daeth gŵr o'r enw John Bunt. Nid oedd y gweithwyr yn y swyddfa yn ymwneud llawer â'r gweithwyr yn y ffatri.

O ran cael anafiadau yn y gwaith, nid yw Nan yn cofio neb yn cael ei anafu ond ambell waith byddai sbarcs o'r weldo yn rhoi llogad iddynt. Roedd dim cymorth cyntaf ar gael a byddai'n poeri ar y llogad, ei rwbio a chario ymlaen a'r gwaith!

Nid oedd unrhyw reolau fel y cyfryw yn y ffatri. Roedd hi'n mynd mewn am wyth o'r gloch ac yn dod allan am bump. Achos bod Bert yno gyda nhw nid oedd dim byd byth yn mynd o'i le. Roedd y cyfleusterau'n eithaf cyntefig – roedd dau dŷ bach, sinc tu allan a Geezer. Roedd cotiau'n cael eu hongian dros y 'bannister'. Roedd lan lofft yn y ffactri'n un ystafell fawr a oedd yn agored gyda swyddfa'n y gornel. Dyna lle oedd pawb yn torri'r 'tsains, dodi'r lincs, 'roedd popeth yn mynd ymlaen fanna'. Roedd tair neu bedair mainc o weldars, ac roedd tri neu bedwar yn dodi'r lincs ar y 'tsains'. Roedd eraill yn gwneud 'swivels'.

**00.29.52: Dywedodd,
'O'dd e i gyd yn gweithio fel un ... O'n ni i gyd yn neud popeth'.**

Lawr staer roedd y peiriannau mawr yn weldo'r lincs bach i gyd at ei gilydd. O'n nhw'n plêto'r 'tsains' wedyn fel eu bod yn disgleirio.

Nid oedd sôn am unrhyw reolau diogelwch. Nid oedd bocs cymorth cyntaf yno hyd yn oed.

**00.31.25: Dywedodd,
'O'n ni'n tough nuts, country bumpkins... O'dd neb yn conan.'**

Roedd y ffatri yn gallu bod yn oer iawn, ac roedd gwresogydd yno yn chwythu awyr gynnes. Roedd yn arogl fel paraffin. Nid oedd radio yn y ffatri. Ar y pryd, batrîs oedd yn rhedeg radios ac nid oedd neb yno yn gallu fforddio'r batrîs. Roedd y merched yn siarad wrth wneud ei gwaith, ac yn cael pwle o chwerthin i'r fath graddau nad oeddynt yn gallu ateb y bos pan fyddai'n gofyn iddynt beth oedd yn bod. Pwnc y sgwrs byddai beth oedd yn digwydd yn y gymdeithas Ffermwyr Ifainc, a phethau bob dydd.

Nid oedd y gweithwyr yn ysmegu wrth wneud eu gwaith. Roedd Nan yn 'smoco' ar y pryd – un bob nos Sadwrn er mwyn cael bod yn rhan o'r 'gang'.

Nid yw Nan yn credu ei bod wedi dioddef unrhyw sgil effeithiau'n y ffatri ond i'r gwrthwyneb – mae'n credu taw gweithio yn Deva Dogs oedd wedi ei rhoi hi ar ben y ffordd a'i galluogi i wneud tipyn o bopeth.

**00.34.37: Dywedodd,
'Fi'n credu bod e wedi helpu fi. Sdim ofon neud dim byd arno i. Sdim ofon treial neud dim byd. Mae'i wedi bod yn good education.'**

**00.34.48: Pwy sgiliau dysgoch chi te?
Dywedodd,
'Fel i iwso morthwyl, fel i iwso llif, fel i weldo, fel i ddod 'mla'n â bobol, ryffan e. Ond peidiwch â rhoi papur a pensil i fi'.**

Roedd awyrgylch dda yn y ffatri, llawer o jocan a thynnu coes. Gorffennodd Nan yn Deva Dogware achos fe glywodd hi bod swydd yn mynd yn Rhydaman am saith bunt yr wythnos. Nid oedd sustem o shifftau yn y ffatri yng Ngwynfe, ond pawb yn gweithio'r un oriau. Roeddynt yn gorfod cloco mewn yn y bore, a chloco allan cyn gadael. Weithiau, gweithiai ar ddydd Sadwrn os oedd angen gorffen ordor ond yn anaml oedd hyn.

Nid oedd cantŷn yn y ffatri felly byddai Nan naill ai'n mynd â brechdanau neu'n mynd i siop Dai'r Bont i brynu rhywbeth fel pastï. Byddai bob tro yn trio mynd am dro amser cinio er mwyn cael awyr iach.

Trefnwyd penwythnosau i ffwrdd yn Llundain a Blackpool, ond nid yw Nan yn cofio cael gwyliau fel y cyfryw. Nid oedd 'shut-down' yn ystod yr haf, fel mewn ffatrioedd mwy o faint. Ond mae Nan yn cofio mynd i rasmus Llangadog ar wyl y banc yn ystod y cyfnod roedd yn gweithio'n Deva Dogs. Hefyd, yn ystod y cyfnod, mae Nan yn cofio cael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynd i angladd ei hewyrth yn Birmingham, ond nid yw'n cofio os oedd wedi cael tâl am y diwrnod hwnnw ai peidio.

O ran y sgiliau ymarferol a oedd yn angenrheidiol i gyflawni gwaith y ffatri, roedd rhan fwy'r gweithwyr yn blant i ffarm, ac felly ym marn Nan yn gymwys i wneud y gwaith.

00.41.16: Dywedodd,

'O'ch chi ddim yn ffysi am gael eich dwylo'n frwnt.... O'dd rheina â lot o *brains*, o'n nhw'n mynd off i *college*, o'n nhw. O'n nhw'n gwbod beth o'n nhw'n moyn neud'.

00.41.37: Dywedodd,

'Os o'ch chi'n brainy o'ch chi ddim yn lico neud pethach practical. Fi nawr, sa i'n lico gwaith papur.'

Nid oedd cymaint o ddewis o waith na swyddi yng nghefn gwlad ac roedd Nan yn teimlo'n hapus bod ganddi gwaith yn y ffatri.

Roedd Nan yn doddi 'arian mewn bob wythnos' mewn pot yn y gwaith er mwyn cael mynd ar drips o'r gwaith. Aethon ni i Lundain un flwyddyn, a'r flwyddyn wedyn aethon nhw i Blackpool. "Jones International" oedd enw'r cwmni bysus ar y trip i Lundain a chawsant aduniad yn Ninbych y Pysgod tua phum mlynedd yn ôl. Roedd merch Bert a chymaint o'r gweithwyr eraill y llwyddon nhw i gael gafael arnynt yn yr aduniad yn y gwesty yn Ninbych y Pysgod, ac roedd Myrddin, yr un gyrrwr a fu ganddynt ar y trips i Lundain a Blackpoll gyda nhw ar y diwrnod hwnnw. Mae Myrddin o Jones International, Llandeilo yn dal i yrru bysus. Yn ystod y trip i Lundain buon nhw i Balas Buckingham a Petticoat Lane, lle cafodd ei llun wedi ei dynnu yn magu mwnci. Prynod pâr o bŵts gwyn yno. Roedd hi'n meddwl bod Llundain yn frwnt – roedd ei dillad yn frwnt pan ddaeth hi adref. Roedd wedi gwneud dillad ei hun er mwyn mynd ar y trip.

Pan aethon nhw am drip i Blackpool cafodd rhai o'r bois datŵs wedi'u gwneud. (Roedd y merched yn eu gwyllo yn cael eu tatŵs, ac yn llefain!) Yn wreiddiol roedden nhw wedi bwriadu cael llun neidr a dagyr, ond fel roedd un yn gweld un arall yn cael dolur wrth gael y tatŵs dibennodd un o'r bois i fyny gyda llun amlen a robin bach, bach ar ei fys bawd.

Nid oedd llawer o gymdeithasu y tu allan i'r gwaith ar wahan i yn y clwb Ffermwyr Ifainc. Roedd Nan mewn grŵp pop gyda merched eraill o'r ffatri. Bydden nhw'n gwisgo sgertiau mini gyda boleros oren, a byddent yn cystadlu mewn cystadleuaethau capeli. Roedd Nan a'i chwaer, ac Enid (a oedd hefyd yn gweithio'n y ffatri: VSW018) yn grŵp Gwynfe. Mae Nan yn cofio nhw'n eistedd yn y sêd fawr yn eu sgertiau mini oren llachar a'u bŵts. Roedden nhw'n arfer ymarfer eu perfformiad yn y ffatri. Caneuon Cymraeg bydden nhw'n eu canu rhan amlaf.

Roedd y gweithwyr eraill yn y ffatri'n lleol, yn dod o Wynfe neu Llanddeusant. Nid oedd parti Nadolig, ond mae Nan yn cofio cael bocs mawr iawn o siocledi un Nadolig.

00.49.06: Dywedodd,

‘O’dd e ddim fel *sweatshop* fel y *laundries*. O’n i ddim yn cael *hard time* o gwbl. O’dd hi’n itha neis i witho ‘na.’

Doedd dim goruwchwylwyr fel y cyfryw yn y ffatri. Bert oedd y bos ac roedd pawb yn gweithio oddi dano fe. ‘Roedd pawb ar yr un lefel. A ‘na beth oedd yn dda ymbytu fe ‘falle’.

Cymraeg oedd iaith y ffatri, ac os oedd rhywun di-Gymraeg yn dechrau yno, buan iawn oedden nhw’n siarad Cymraeg hefyd. Nid oedd Bert yn stopo unrhyw un i siarad Cymraeg.

00.50.57: ‘O’dd e’n amser hapus o’n fywyd i’.

Gorffennodd Nan yno pan roedd hi tua deunaw mlwydd oed. Dim ond tua dwy flynedd a hanner buodd hi yno.

00.51.25: Dywedodd am ei rhesymau am orffen yno, ‘Daeth engagement ring a mwy o arian.’

Aeth i weithio mewn ffatri yn Rhydaman (Alan Paine) ar ôl gadael Deva Dogs. Nid oedd yn hoffi’r ffatri honno. Roedd yn hollol wahanol.

00.51.46: Dywedodd,

‘O’ch chi yn teimlo bod chi mewn ffatri fan’na’.

Roedd wedi cael ei denu yno oherwydd bod yr arian yn saith bunt yr wythnos. Roedd hi’n gallu gyrru erbyn hynny, ond roedd yn casáu gweithio’n Alan Paine.

00.52.15: Dywedodd

‘O’dd pawb yn dishgwyl arnoch chi fan’na fel sech chi wedi dod lawr o’r nefo’dd.’

Pan roedd rhywun newydd yn dechrau yno roedd pawb yn edrych arnyn nhw, ac nid oedd Nan wedi arfer â hyn yn Deva Dogware. Ta pwy oedd yn dechrau’n Deva Dogware, roedden nhw’n ei adnabod nhw cyn ei bod nhw’n dod. Roedd yn gorfod codi yn gynt yn y bore er mwyn teithio i’r gwaith yn Rhydaman. Roedd petrol yn costio ‘four and seven’. Nid oedd yn dyfaru gadael Deva Dogware achos roedd yr arian gymaint yn fwy.

00.53.53: Dywedodd,

‘O’ch chi ddim yn neud ffrindie mewn ffatri fel ‘na. O’ch chi’n eistedd yn eich sêd ac yn neud yr un peth o fore gwyn tan nos. O’ch chi’n mynd i ga’l cino, ac o’ch chi’n dod nôl a neud yr un peth. Ac o’ch chi’n mynd gatre. Ac oedd e fel, o’n i’n teimlo fel sen i mewn bocs.

Ffatri gwneud siwmperi oedd Alan Paine. Roedd hi’n gorfod eistedd yn yr un man, a dim ond cefn pen y person o’u blaen roedd hi’n ei weld, ac roedd ‘inspectors’ yn dod o gwmpas i sicio ac yn dweud, ‘do that again, do that again’. Gorffennodd yn y ffatri pan roedd hi’n disgwyl babi. Nid oedd yn adnabod neb yn y ffatri’n Rhydaman cyn dechrau yno. Chwaer

Nan oedd wedi clywed bod gwaith ar gael yno, ac aeth y ddwy i'r ffatri gyda'i gilydd. Aeth merch arall o Wynfe gyda nhw. Byddai Nan ddim wedi gallu parhau i weithio'n Alan Paine.

00.56.15: Dywedodd,
'O'dd e fel *jail sentence*. O'dd e'n horrible'.

Roedd yr adnoddau lot yn well yno – radio, cantîn, y tai bach, 'cloakroom', popeth.

00.56.40: Dywedodd,
'Roedd popeth yn reit, ond y bobol yn rong... O'ch chi ddim yn gallu neud ffrindie, roedd pawb am eu hunain, pawb a'u gwaith, neud job a mynd gatre'.

English summary

**Ffatri Deva Dogware, Gwynfe; Ffatri Alan Paine, Rhydaman
(Started in Deva Dogware in 1965 or 1966)**

Interviewee: VSW017 Nan Morse

Date: 15.1.14

Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales

Nan was born in Faerdre Fach, near Castell Carreg Cennen on 12th January, 1950. Her parents were farmers. When she was 2 she moved to Nantfforchog in Gwynfe, and went to Gwynfe School when she was about 4. She later went to Llandoverly County High School (now called Ysgol Pantycelyn.) She hated school and was glad to be able to leave aged 15. She spent hours getting to and from school. Firstly, she went from Nantfforchog on a minibus to Three Horse Shoes and waited there for a Thomas Brothers Double Decker to Llandoverly. Afterwards she had to catch a bus that took her through Myddfai in the morning. It was very often dark when she arrived home in the winter. She would have liked to have been a nurse but she lived in an isolated area with no transport.

Before leaving school she had a Saturday job in a small local shop selling sweets for Dai Bont, near the Three Horse Shoes. Dai was a 'moonlight grocer', delivering to farms late in the evenings. She liked shop work and did some butchery! She doesn't remember being paid, but thinks she may have been paid with sweets instead of money. Nan was about 14 at the time and she walked 2 or 3 miles to reach the shop.

When she left school she worked at the Post Office in Llanwrda looking after 4 young children between Easter and the summer. She liked the work but didn't feel she was cut-out for it, not being much more than a child herself.

That summer Nan started work at the factory. To begin with she had a lift with her mother or her father then later with her boss – Bert.

Nan can't remember how she got the job, but she was glad to come back to Llanwrda and live at home. The factory was called Deva Dogware, Pontarlleche.

Her work at the factory involved cutting chains, welding and allsorts. Sometimes she made belts from chains.

They made dog leads including leads for guide dogs. They made leather leads and chain leads. Nan started work there in 1965/66. She enjoyed working there and knew everybody – there were 10 workers. The owners were two brothers from England. Their wives worked in the office. The factory was situated between Gwynfe and Llanddeusant on the site of an old mill. Thomas Brothers, the bus company were the previous occupants. Nan's parents were happy that Nan had the job – they'd been farming all their lives and weren't used to regular pay.

Nan doesn't remember her first day but remembers her first pay packet - 'two pound four and nine a week'. There was enough for her to save some money. She didn't have to give money to her parents – she just helped out on the farm.

She was the second of five children. Her older sister worked at home on the farm but when she saw that Nan earned good money at the factory, she got a job there herself.

Although they were young when they started work at the factory, Nan remembers them going to a dance in Llandeilo. She and her sister had 10 shillings between them and there was plenty left for them to go to the fair too.

All the Deva Dogware workers were from the area and of a similar age. No qualifications were required – just a willingness to work.

00.09.54: She said:

'They showed you what to do, you picked it up very easily, and because you were so young, you could just do it'.

Bert was the boss and owner. He also worked with the others. They were all in one big room and Bert was welding in one corner. He wasn't strict and Nan can't remember him ever giving the workers a row.

She said:

'He was just like one of us. I thought he was ancient.'

There were a lot of tapping hammers at the factory and the noise of chains in the vices, the oxy-acetylene and the welding. Everyone sung Welsh songs.

She worked from 8am to 5pm 5 days a week. (More if required)

There was a tea break at 10am. There was a tap in the toilet where they washed the teacups and got water for the tea.

00.12.30: Nan said:

‘I thought it was very upmarket, because we’d only just had water connected at home’.

Nan and the girls sat on the oily chains to drink their tea.

There was no uniform. She wore old clothes because the sparks from the welding burnt holes in them.

The girls would race each other – who could be the first to make 50 chains.

00.13.34: Nan said:

‘We made it fun and the time flew by.’

The factory was cold. There was a large heater which blew hot air. Nan can’t remember if they had an afternoon tea break. There was no music so the girls had to make their own entertainment. Nan enjoyed the work – it wasn’t boring because there were a variety of different jobs involved in the whole process, e.g. stretching chains, loading, welding.

Nan says that all the workers had fun.

00.15.20: ‘It was different from any factory you’d find in a town’.

Nan’s not sure what she would have done had there not been a factory at Gwynfe as there weren’t many opportunities in the countryside.

00.15.46: ‘There was no chance of going anywhere unless we left home.’

00.15.57: ‘We were scared, we were cowards. You know how we are in the country – not as cheeky as townsfolk.’

The work didn’t change while she was there. When Crufts dog show came around some of the workers would go there to work seeling the factory’s merchandise. Nan never went. She doesn’t remember ever being asked to go. She didn’t realise the significance of Crufts anyway.

The work didn’t require specific skills (even though they turned their hands to things, like welding) everyone did everything.

The workers were mostly single women although some were married. The wages went up to £3. Nan was paid every week – a little brown envelope with her name on it. She was very excited when she received her first pay packet. It was a lot of money for her at the time. She thinks the men were paid more because they handled the machines. She doesn’t remember ever taking a day off.

Sometimes the girls would make a belt for themselves – ‘triple links or double links’. The bosses were unaware of this little perk. They’d also make the odd gaff for the boys to catch salmon.

Nan doesn’t remember any problems at work. Bert, the boss, worked with them and could solve any problems that might arise. Occasionally Nan had problems getting to work.

Usually she'd walk to meet Bert who'd give her a lift. During bad weather e.g. snow, Bert would call for her at home.

There was no canteen at work. The building was enormous – four rooms downstairs where the machines were housed. One machine welded each link then the chains were brought upstairs where Nan welded rings to go each side of the lead.

There was no ceiling upstairs, just the slates on the roof. It was like a big shed.

00.23.35: Nan said:

'Looking back, it was quite bad – at the time there was nothing wrong with it, it was quite posh considering. It was like a little haven where we all met and had fun.'

It was cold. Nan wore winter clothes in the summer. It was quite dark with the odd strip light - "just enough to see."

Bert and Les Thomas were the factory owners. Yvonne Dredge came down from London to work in the office, and a man called John Bunt. Those in the office didn't have much to do with the other workers.

Nan doesn't remember any accidents apart from the occasional burn from welding sparks. There was no first aid available – Nan spat on the burn, gave it a rub and carried on.

There were no rules as such. She started at 8 and finished at 5. Nothing went wrong – Bert was always there to deal with problems. The facilities were quite primitive – 2 toilets, an outside sink and a geyser. Coats were hung over the bannister. Upstairs was one big room with an office in one corner. The chains were cut and linked there. There were 3 or 4 welding benches and 3 or 4 people putting links on the chains. Others made swivels.

Downstairs, the large machines welded the small links together. Then the chains were plated so that they shone.

00.31.25: Nan said:

'We were tough nuts, country bumpkins... Nobody complained.'

The heater smelled of paraffin. There was no radio. In those days, radios ran on batteries and they were too expensive to buy. The girls chatted while working about the latest news from the Young Farmers Club and everyday matters, and they'd have such fits of laughter that they couldn't even answer the boss when he asked what was wrong.

Nan smoked at the time – one fag on a Saturday night, to be one of the gang. However, none smoked at the factory.

Nan didn't suffer any long term ill-effects from her work at the factory. On the contrary – she believes that her time at Deva Dogware stood her in good stead, enabling her to be very versatile.

00.34.37: She said:

'I think it helped me. I'm not afraid to do anything. I'm not afraid to try anything. It's been a good education.'

00.34.48: She learnt:

‘How to use a hammer, how to use a saw, how to weld, how to get along with people, how to rough it. But don’t give me a pencil and paper.’

There was a good atmosphere at the factory – plenty of joking and leg-pulling. Nan finished at Deva Dogware because she heard about jobs in Ammanford that paid £7/week. There was no shift system at Deva Dogware – everyone worked the same hours.

Nan took sandwiches to work or bought a pastie in Dai Bont’s shop. She always tried to get some fresh air at lunchtime.

The workers arranged weekends away in London or Blackpool but Nan can’t remember having a proper holiday. There was no 2 week summer shut-down like in other larger factories, but Nan recalls going to the races in Llangadog one bank holiday. She also had time off work to go to her uncle’s funeral in Birmingham but can’t remember if she lost pay for that day.

As far as requiring practical skills were concerned, most of the workers were brought up on farms and in Nan’s opinion, this alone made them suitable to work.

00.41.16: ‘You weren’t fussy about getting your hands dirty... Those with brains went off to college, didn’t they? They knew what they wanted to do’.

00.41.37: ‘If you were brainy you didn’t like doing practical things. Me? Now I don’t like paperwork.’

Nan put money into a “pot” at work each week to save for work outings. They went by “Jones International” (buses) to London one year and to Blackpool the following year. Some 5 years ago they had a reunion in Tenby which saw Bert’s daughter and as many workers as could be tracked down, along with Myrddin, one of the drivers on the London and Blackpool trips. Myrddin still drives buses. During the London trip they saw Buckingham Palace and Petticoat Lane where Nan was photographed with a monkey. She bought a pair of white boots there and thought London was a dirty place since her clothes, which she’d made herself to go on the trip, were dirty when she arrived home.

In Blackpool, some of the boys had tattoos done. Some of them were crying in pain during the process. They’d originally chosen a snake and dagger design, but as they watched one by one in pain, one of the boys opted for a tiny little robin on his thumb.

Apart from the Young Farmers Club, there was not too much socialising after work. Nan was in a pop group with her sister and Enid (who also worked at the factory). They wore mini skirts and orange boleros, and competed in chapel competitions.

The other factory workers were local – from Gwynfe or Llanddeusant. There was no Christmas party, but Nan remembers being given a big box of chocolates one Christmas.

00.49.06: ‘It wasn’t a sweatshop like the laundries. We didn’t have a hard time at all. Working there was quite nice.’

There were no supervisors as such in the factory. Bert was the boss, and everyone worked under him. 'Everyone was on the same level. Maybe that's what was good about it.'

Welsh was spoken at the factory, and if a non-Welsh speaker started working there, it wasn't long before they were speaking Welsh too. Bert didn't stop anyone speaking Welsh.

00.50.57: 'It was a happy time in my life'.

Nan finished there when she was about 18. She worked there for 2 ½ years.

00.51.25: Why did she leave?

'An engagement ring came my way – and more money.'

She went to work in (Alan Paine, in Ammanford. She didn't like it there.

00.51.46: 'You felt as though you were in a factory there.'

She was attracted by the wages - £7/week. She could drive a car by then, but she hated working at Alan Paine.

00.52.15: 'Everyone looked at you as if you'd come down from heaven.'

When a new worker started everyone stared at them. Nan wasn't used to that. At Deva Dogware, of course, everybody knew everybody, even new starters. She had to start earlier in the mornings in order to reach Ammanford on time. Petrol cost 4s 7d. She didn't regret leaving Deva Dogware because the wages were so much better.

00.53.53: 'You were never going to make friends in a place like that. You sat in your chair and did the same thing morning noon and night. You went to lunch, then came back and did the same thing. And you went home. And it was like... I felt like I was in a box.'

Alan Paine made sweaters. From her seat, Nan could only see the back of the head of the person in front of her. Inspectors came round constantly and said 'do that again, do that again'. She finished at the factory when she became pregnant. She hadn't known anyone at the factory before she started. Her sister had first heard about the jobs and they both went together along with another girl from Gwynfe. Nan doesn't think she could have continued at Alan Paine.

00.56.15: 'It was like a gaol sentence. It was horrible.'

The facilities were better there - radio, canteen, the toilets, cloakroom, everything.

00.56.40: 'Everything was right but the people were wrong. You couldn't make friends, everyone was concerned with themselves, each with her own work, do a job and go home.'